**Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:**
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

# Ail gyfle i fod yn gymwys am gontractau Marchnad Lafur Drosiannol yn Nwyrain Cymru

**Mae cynllun Marchnad Lafur Drosiannol (MLD) WCVA wedi ail-agor ei drefnlen ar gyfer holiaduron cyn-gymhwyso (HCG) – gan roi ail gyfle i sefydliadau fod yn gymwys i dendro am gontractau yn ardaloedd Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol Dwyrain Cymru.**

Mae'r cynllun, a gefnogir gan gyfanswm o £18m o arian gan Ewrop a'r Cynulliad, yn buddsoddi mewn sefydliadau er mwyn darparu cefnogaeth a hyfforddiant yn y gwaith i bobl economaidd anweithgar drwy gyfrwng cyfnod o gyflogaeth â chymorth.

Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer y rhestr o gyflenwyr cymeradwy, bydd angen i fudiadau gwblhau a chyflwyno'r holiadur cyn-gymhwyso (HCG) erbyn **1pm ddydd Llun 10 Mai 2010**.

I gael HCG neu bamffled gwybodaeth cyffredinol, cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu e-bostio help@wcva.org.uk. Mae'r HCG a'r ddogfen ganllaw hefyd ar gael i'w llwytho i lawr oddi ar wefan WCVA a www.gwerthwchigymru.co.uk.

*Bydd WCVA yn cynnal sesiynau briffio ar HCG ar draws Dwyrain Cymru yn y dyfodol agos. I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â www.wcva.org.uk neu cysylltwch â Lein Gymorth WCVA*.

# Galw am enwebiadau i wobrwyo gwirfoddolwyr

**Mae WCVA wedi lansio Gwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn sydd eleni yn cael eu cefnogi gan CCLA Investment Management Cyf.**

Ers i'r fenter ddechrau ym 2004, mae nifer yr enwebeion wedi cynyddu i dros 200 mewn pum categori, a ddewiswyd i adlewyrchu'r ystod o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ledled Cymru.

Yn ogystal â chydnabod unigolion, pobl ifanc (dan 25 oed) a grwpiau, mae'r hefyd yn gwobrwyo gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr 'gwyrdd'.
Ceir hyd at dri enillydd ymhob categori, sy'n arwain at 15 enillydd cenedlaethol, a bydd yr enillwyr yn cael eu gwobrau mewn seremoni yng Nghaerdydd fis Mehefin, a bydd pawb a enwebir yn cael tystysgrifau clod mewn seremoni leol neu drwy'r post.

Ymhlith Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru 2009 oedd ymgyrchydd amgylcheddol 14 oed, cyn athrawes sy'n gweithio ar sail gwirfoddol i'r RSPCA am fwy o oriau na'r rhan fwyaf yn ei gwaith cyflogedig, a chriw o wirfoddolwyr sy'n helpu pobl â nam ar ei golwg – er eu bod hwy eu hunain â nam ar eu golwg neu'n gwbl ddall.

Mae'r cefnogwr newydd ar gyfer 2010, CCLA, yn bodoli i helpu elusennau i wneud y gorau o'u buddsoddiadau. Gweler www.ccla.co.uk am ragor o wybodaeth.

*Gellir cael manylion y cynllun o fis Chwefror, gan gynnwys ffurflenni enwebu, drwy gysylltu â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu drwy anfon e-bost at help@wcva.org.uk. Hefyd, gellir eu llwytho i lawr o'r wefan o fis Chwefror, sef www.wcva.org.uk/voty. Y dyddiad cau ar gyfer cael enwebiadau yw 23 Ebrill 2009.*

# Cynllunio busnes cyfranogol ar gyfer cynghorau gwirfoddol sirol a mudiadau sydd ag aelodaeth o'r trydydd sector yng Nghymru

**Mae Cyfranogaeth Cymru yn gweithio mewn cydweithrediad â Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd i gynnal seminar ar Gynllunio Busnes Cyfranogol; bwriedir y seminar ar gyfer Cynghorau Gwirfoddol Sirol a mudiadau gwirfoddol eraill sydd ag aelodaeth.**

Bydd y seminar, sy'n rhedeg o 2pm hyd at 4pm ar 30 Mawrth yng Nghymdeithas y Mudiadau Gwirfoddol yn Wrecsam, yn rhannu profiadau a model cynllunio busnes cyfranogol Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd: yr hyn a wnaethant hwy, sut y gwnaethant hwy hynny, a'r hyn y maent hwy wedi'i ddysgu.
.

Bydd trafodaeth wedi'i hwyluso'n cael ei chynnal wedyn, gan archwilio a rhannu'r arferion cyfredol o safbwynt cynnwys aelodau, canfod yr hyn a ddysgwyd a'r arferion da.
Yn dilyn y seminar hon, y gobaith yw y byddwch yn meddu ar syniadau a chyfryngau newydd y gallwch eu defnyddio yn eich sefydliad er mwyn sicrhau bod eich prosesau cynllunio busnes yn cael eu hysbysu gan safbwyntiau a phrofiadau eich aelodau.

*Os hoffech archebu lle yn y seminar, cysylltwch â Cyfranogaeth Cymru ar 01970 631126, e-bostio participationcymru@wcva.org.uk neu ewch i www.participationcymru.org.uk/training/seminars. Caiff llefydd eu neilltuo ar sail y cyntaf i'r felin ac maent yn costio £5 i aelodau WCVA a £10 i rai nad ydynt yn aelodau o WCVA.*

# Cyllid ar gael i greu swyddi ar gyfer pobl ifanc

**Mae cyllid yn dal i fod ar gael ar gyfer mudiadau'r trydydd sector i greu swyddi ar gyfer pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed drwy Gronfa Swyddi'r Dyfodol yr Adran Gwaith a Phensiynau.**

Gwnaeth WCVA gais llwyddiannus i'r Adran Gwaith a Phensiynau y llynedd am gyllid ar gyfer y sector yng Nghymru - ac mae arian yn dal i fod ar gael i fudiadau er mwyn cefnogi pobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan y dirywiad economaidd.

Nod Cronfa Swyddi'r Dyfodol yw rhoi cymorth i bobl ifanc ddi-waith a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle mae diweithdra'n uchel, drwy ddarparu cyllid ar gyfer creu 170,000 o swyddi newydd ledled y DU tan fis Ebrill 2011.

Ers lansio Cronfa Swyddi'r Dyfodol, cyhoeddwyd 4,600 o swyddi newydd ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru, mewn amrywiol feysydd yn cynnwys gwaith amgylcheddol, iechyd a gofal cymdeithasol, a gwaith ieuenctid a chymunedol.

Gall Cronfa Swyddi'r Dyfodol roi hyd at £6,500 ar gyfer pob swydd newydd sy'n cael ei chreu. Dylai unrhyw fudiad trydydd sector sy'n dymuno defnyddio'r gronfa i greu swyddi i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed gysylltu â Lein Gymorth WCVA i gael rhagor o wybodaeth ar 0800 2888 329 neu help@wcva.org.uk.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.